
Cynllun Cymunedau y Dreth Gwarediadau Tirlenwi



WcVA
CgGC



Ariennir gan
Lywodraeth Cymru
Funded by
Welsh Government

Landfill Disposals Tax Communities Scheme

Dyfarniadau Grant Cylch 7 2021-2022

Mudiad	Thema	Lleoliad	Disgrifiad o'r Prosiect	Grant a ddyfarnwyd
Art Shell	Gwelliant Amgylcheddol Ehangach Bioamrywiaeth Lleihau Gwastraff	Caerdydd	Bydd y prosiect yn datblygu stiwdios celf fforddiadwy, gwyrdd a chynhwysol a fydd yn annog beicio a defnyddio ynni effeithlon ac yn ymhél â'r gymuned leol ac yn ei chefnogi. Y nod yw cynnig gweithfannau sefydlog a chefnogaeth i artistiaid lleol, gan gynnwys y rheini na fyddai fel arfer yn gallu eu fforddio.	£24,377.99

Canolfan Gymunedol Artis	Lleihau Gwastraff Gwelliant Amgylcheddol Ehangach Bioamrywiaeth	Rhondda Cynon Taf	Caffi trwsio a llyfrgell o bethau, sy'n cynnig cyfleoedd gwirfoddoli, hyfforddiant, gweithdai sy'n canolbwyntio ar gynaliadwyedd amgylcheddol ac sy'n lleihau ein heffaith ar y blaned. Bydd Pobl Ponty Planed yn: <ul style="list-style-type: none"> • lleihau'r adnoddau a ddefnyddir • atal gwastraff • annog datblygiad economi gylchol • cyflwyno buddion i ansawdd bywyd trigolion • hybu gwydnwch cymunedol 	£49,995.66
Awel Aman Tawe	Gwelliant Amgylcheddol Ehangach Lleihau Gwastraff	Castell-nedd Port Talbot	Mae'r cais hwn i osod caffi cymunedol fel rhan o'r gwaith o adnewyddu hen ysgol gynradd Cwmgors yn hwb carbon isel hygyrch i artistiaid, entrepreneuriaid ac addysgwyr. Bydd gan 'Hwb y Gors' fannau stiwdio, swyddfa a dosbarth llawn offer ac amrywiaeth o gyfleusterau cymunedol.	£49,600.00
Fferm Holistaidd Cae Rhug	Bioamrywiaeth	Sir y Fflint	Bydd y Llwybr Peillwyr yn llwybr cyfeillgar i fywyd gwyllt a phobl a grëir gan y gymuned. Bydd yn ei gwneud hi'n hawdd i'r holl gymuned, gan gynnwys y rheini â heriau symudedd, nid yn unig i fwynhau cynefin llawn bywyd gwyllt, ond hefyd i gymryd rhan mewn gwaith plannu grwpiau peillio, dysgu am	£35,745.29

			gadw gwenyn a darparu safleoedd nythu ar gyfer peillwyr.	
Dinas i'r Môr	Lleihau Gwastraff	Gwynedd ac Ynys Môn	Bydd estyniad Ail-lenwi Cymru yn annog pobl yn ardal Bangor i fyw â llai o blastig a chefnogi cwmnïau sy'n symud i ffwrdd o ddeunydd pacio untro i ddeunydd y gellir ei ail-lenwi a'i ail-ddefnyddio. Bydd yr ap Ail-lenwi am ddim yn cysylltu defnyddwyr â lleoedd i Ail-lenwi bwyd, diodydd a nwyddau groser.	£49,415.92
E.L.I.T.E. Supported Employment Agency Ltd	Lleihau Gwastraff	Merthyr Tudful	Bydd y Prosiect yn ymgysylltu â 100 o bobl anabl a dan anfantais o'n cymunedau, sy'n ddi-waith ar hyn o bryd a/neu'n profi allgau cymdeithasol, er mwyn datblygu eu hymwybyddiaeth o'r amgylchedd a sgiliau galwedigaethol, drwy hyfforddiant a gwirfoddoli, gan gefnogi 21+ o gymunedau i arallgyfeirio cynnyrch cardbord o safleoedd tirlenwi, drwy weithgynhyrchu cynnyrch amgen, "Eco Animal Bedding".	£49,999.00

Canolfan Deuluol	Gwelliant Amgylcheddol Ehangach Bioamrywiaeth	Sir Gaerfyrddin	Gardd Gymunedol Canolfan Deuluol Garnant yw lle y daw teuluoedd o'r gymuned i gysylltu â'i gilydd a datblygu gwydnwch yng ngŵydd newydd, drwy ymhel â natur yn yr ardd fel adnodd addysgol a lles. Mae'r man awyr agored hyfryd hwn yn caniatáu i blant ddatblygu sgiliau cymdeithasol, emosiynol a dysgu drwy chwarae yn yr awyr agored.	£11,852.00
GISDA Cyfyngedig	Lleihau Gwastraff	Gwynedd	Nod Caffi Creu fydd codi ymwybyddiaeth o leihau gwastraff a'r economi gylchol drwy weithdai, mentrau ac ymgyrchoedd ar aildddefnyddio, ailgylchu ac ail-greu. Bydd y prosiect yn ceisio addysgu pobl ifanc y dyfodol a'u paratoi â'r sgiliau y bydd eu hangen arnyn nhw i fabwysiadu ymddygiadau amgylcheddol cadarnhaol.	£37,367.19
Groundwork Cymru	Lleihau Gwastraff	Caerffili	Bydd gwirfoddolwyr o grwpiau cymunedol ac ysgolion lleol yn glanhau rhannau o Afon Nant-yr-Aber ym Mwrdeistref Caerffili, gan gael gwared â gwastraff o'r afon a glannau'r afon a'i ailgylchu, gan wella iechyd yr afon a'i dalgylch, a chodi ymwybyddiaeth o effaith gwastraff ar ecoleg afonydd.	£14,461.00

Innovate Trust	Bioamrywiaeth Gwelliant Amgylcheddol Ehangach Lleihau Gwastraff	Caerdydd	Mae'r prosiect 'Boosting Nature' yn cynnig cyfleoedd gwirfoddoli amgylcheddol i bobl ag anabledau dysgu er mwyn gwella bioamrywiaeth yng Nghaerdydd a'r Fro, gan hefyd sicrhau bod cyfleoedd gwirfoddoli amgylcheddol ar gael y tu allan i 'Innovate' drwy ein cynllun Bydis Gwirfoddoli.	£49,575.82
Cyngor Cymuned Llangatwg	Gwelliant Amgylcheddol Ehangach Bioamrywiaeth	Powys	Dechrau adeiladu llwybr hygyrch o gwmpas Cae Chwarae Llangatwg, gan agor llwybr i brosiectau eraill fel llwybr ffitrwydd, ac ardaloedd synhwyrdd, bywyd gwylt a bioamrywiaeth. Gallai'r llwybr ffurfio rhan o lwybr mwy diogel i gerddwyr a beicwyr drwy Langatwg, i ffwrdd o'r prif lwybr i lorïau sbwriel.	£49,999.00
Neuadd Bentref Rhiwlas	Gwelliant Amgylcheddol Ehangach Bioamrywiaeth	Gwynedd	Mae Neuadd Bentref Rhiwlas a Bwyd Bendigedig Rhiwlas yn gweithio gyda'i gilydd i wella'r cyfleusterau cymunedol a'r mannau gwyrdd yn Rhiwlas. Rydyn ni eisiau gwneud gwelliannau pwysig i'r neuadd er mwyn cynyddu'r amrediad o weithgareddau sy'n bosibl, a chreu rhagor o fannau garddio cymunedol gerllaw er mwyn cyflwyno buddion i bobl a bywyd gwylt.	£22,075.44

<p>Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru (Prosiect 1)</p>	<p>Bioamrywiaeth</p>	<p>Wrecsam</p>	<p>Bydd y prosiect yn:</p> <ol style="list-style-type: none"> 1. cynorthwyo staff, contractwyr a gwirfoddolwyr lleol (cyflogeion a phreswylwyr) i gynnal a gwella'r clytwaith o gynefinoedd o fewn Ystâd Ddiwydiannol Wrecsam; ac 2. ymwreiddio bioamrywiaeth ymhlith y gymuned leol drwy dasgau gwirfoddolwyr, sesiynau addysgol ar gyfer grwpiau o ddysgwyr amrywiol, gwelliannau i'r mynediad a gwell dehongliad 	<p>£49,971.89</p>
<p>Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru (Prosiect 2)</p>	<p>Bioamrywiaeth</p>	<p>Gwynedd</p>	<p>Bydd y prosiect yn:</p> <ol style="list-style-type: none"> 1. cynorthwyo staff, contractwyr a gwirfoddolwyr i wella'r clytwaith o gynefinoedd yng Ngwarchodfa Natur Spinnies Aberogwen, gan ganolbwyntio ar wella'r cyflyrau i adar a gwylwyr adar 2. ymwreiddio bioamrywiaeth a gwella'r ddealltwriaeth o oblygiadau lleol y newid yn yr hinsawdd ymhlith cymunedau lleol drwy dasgau gwirfoddolwyr, sesiynau addysgol a gwell mynediad/dehongliad 	<p>£49,807.59</p>

<p>Ymddiriedolaeth Canolfan y Mileniwm Pilgwenlli Cyf</p>	<p>Gwelliant Amgylcheddol Ehangach</p> <p>Lleihau Gwastraff</p> <p>Bioamrywiaeth</p>	<p>Casnewydd</p>	<p>Rydyn ni wrthi'n chwilio am gyllid i gwblhau prosiect adnewyddu adeilad mawr ei angen er mwyn moderneiddio ein cyfleuster cymunedol bendigedig a gwneud yn siŵr y gallwn ni fod yn gynaliadwy, lleihau ein hól troed carbon a chynnig gwasanaethau mawr eu hangen i'n cymuned leol am flynyddoedd i ddod.</p>	<p>£49,999.00</p>
<p>Trwsio a Rhannu (sy'n masnachu fel Caffi Trwsio Cymru)</p>	<p>Lleihau Gwastraff</p>	<p>Siroedd amrywiol</p>	<p>Mae gwirfoddolwyr y Caffi Trwsio yn trwsio eitemau ar eu ffordd i safleoedd tirlenwi, yn addysgu sgiliau trwsio ac yn annog uwchgylchu. Mae gennym ni dros 60 o Gaffis Trwsio llwyddiannus yn gwasanaethu cymunedau ar hyd a lled Cymru. Bydd ein prosiect yn creu 10 Caffi Trwsio newydd mewn lleoliadau blaenoriaethol: gan leihau gwastraff, arbed arian, addysgu sgiliau trwsio ac arddangos prosiectau uwchgylchu ac ailddefnyddio.</p>	<p>£49,699.10</p>

Sea Trust Wales	Bioamrywiaeth	Sir Benfro	Mae 'Sea Trust' yn ehangu ei waith ar fonitro bywyd gwyllt y môr i ardaloedd newydd ac ar rywogaethau lluosog. Bydd gwirfoddolwyr hyfforddedig lleol yn arolygu bob ardal yn rheolaidd ac yn codi ymwybyddiaeth ymhlith cymunedau lleol a thu hwnt o fywyd morol yr ardal a'i ddylanwad cadarnhaol ar lesiant.	£26,447.06
Asynnod Eryri	Bioamrywiaeth	Gwynedd	Mae coetiroedd yn adnodd gwerthfawr i fywyd gwyllt a phobl. Amlygwyd eu pwysigrwydd i bobl yn ystod pandemig COVID. Mae hyn wedi arwain at yr angen am gynllun rheoli a gwaith gwella cydlynol i warchod eu gwerth i fywyd gwyllt a chynyddu eu gwerth i bobl.	£49,999.00
Fferm Gymunedol Abertawe	Bioamrywiaeth	Abertawe	Prosiect sy'n canolbwyntio ar gynefinoedd rhostir gwlyb yw Cynefin a ddyluniwyd i wella'r cysylltiad rhwng pobl ifanc agored i niwed, yr amgylchedd y maen nhw'n byw o'i fewn a'i gilydd. Bydd Cynefin yn rhoi sgiliau newydd iddyn nhw, llesiant gwell, ymdeimlad cryfach o berthyn ac ymdeimlad gweithredol o fod eisiau gwarchod y byd naturiol.	£49,978.92

Ymddiriedolaeth Elusennol Wastesavers	Lleihau Gwastraff	Casnewydd	Bydd WCTL yn darparu lle a chyfleusterau yn ei Chanolfan Ailddefnyddio newydd yng Nghasnewydd er mwyn i'r gymuned gael cymorth, gwybodaeth ac addysg ar ailddefnyddio a'i fuddion. Bydd gweithgareddau'n cynnwys Caffi Trwsio, Llyfrgell Cewynnau a sesiynau cynhwysiant digidol.	£49,134.29
---	----------------------	-----------	---	------------